



Eich cyf/Your ref P-06-1408
Ein cyf/Our ref KSNWT/05202/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@llyw.cymru

14 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Ebrill ynglŷn â Deiseb P-06-1408 *Dylid gwneud y mynediad i Ardd Gudd A4042 Goetre Fawr yn ddiogel ar gyfer cerddwyr a cherbydau.*

Rwyf wedi rhoi eich llythyr i'm swyddogion ac wedi gofyn iddynt ystyried y pwyntiau a'r cwestiynau eraill a godwyd gan y deisebydd, sydd i gyd yn berthnasol i'r broses ddylunio yn yr Ardd Gudd.

Cydnabyddir nad yw'r safleoedd bysiau'n hygyrch. Mae awydd i wella hyn drwy gysylltiadau troedffordd â'r rhain ar ddwy ochr y ffordd. Rydym yn cymryd diogelwch y priffyrdd o ddifri a bydd arwyddion priodol ar gyfer unrhyw ddyluniad. I sicrhau diogelwch ymhellach, mae'n ofynnol i bob cynllun ddilyn camau perthnasol y broses Archwilio Diogelwch ar y Ffyrdd.

O ran cysylltiadau Teithio Llesol ar goridor yr A4042 yn y lleoliad hwn mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain gyda'u Prosiect Braenaru, sy'n ceisio dod ag awdurdodau priffyrdd a rhanddeiliaid ynghyd i wireddu dyheadau cyffredinol cyswllt Pont-y-pŵl i Frynbuga. Yn amodol ar gyllid a'r blaenoriaethau, mae'n debygol y byddai cam cyntaf y gwaith hwn ar goridor yr A4042, a byddai'n gwneud synnwyr, lle bo hynny'n bosibl, i gysylltu manau o ddiddordeb lleol fel yr Ardd Gudd.

O ran yr hawl tramwy cyhoeddus, er nad yw hon yn rhan o goridor yr A4042, byddai'r cynllun yn ceisio cynyddu hygyrchedd cymaint ag y bo modd ac felly'n debygol o hwyluso cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau.

Yn gywir,

Ken Skates AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.